TUC Cymru



# Cyrsiau i bob cynrychiolydd undeb

Medi 2026 - Gorffennaf 2027

# Cynnwys:


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am gyrsiau Addysg TUC | **3** |
| Amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant | **5** |
| Cod Ymddygiad | **6** |
| Achredu a llwybrau | **7** |
| Cyrsiau | **19** |
| Sut i wneud cais | **24** |


## Eich tîm addysg TUC Cymru


**Julie Cook** - Swyddog Cenedlaethol

**Jo Rees** - Swyddog Polisi (Addysg)

**Gavin Pearce** - Swyddog Cefnogi Polisi a Chyfathrebu

**TUC Cymru 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9SD**
**Ffôn: 029 2034 7010**

Gwefan: tuc.org.uk/WalesCourses
E-bost: cymru@tuc.org.uk

# Gwybodaeth am gyrsiau Addysg TUC


**Mae ein rhaglenni hyfforddi i gynrychiolwyr undeb wedi cael eu cynllunio i gynnig profiad addysgu gwych, beth bynnag yw eich rôl:**

- cynrychiolydd undeb
- cynrychiolydd iechyd a diogelwch
- cynrychiolydd dysgu
- cynrychiolydd cydraddoldeb
- cynrychiolydd gwyrdd/amgylchedd
- cynrychiolydd undeb llafur arall

Bydd hyfforddiant ar gael a fydd yn eich cyflenwi â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i wneud gwahaniaeth go iawn yn eich gweithle.

## Cynhwysol a chroesawgar

Rydyn ni am i chi fanteisio i'r eithaf ar ein cyrsiau a theimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, beth bynnag yw eich cefndir. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i driniaeth gyfartal, heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd/cred, oedran nac ailbennu rhywedd.



## Ehangu'r dewis

Mae bywyd yn torri ar draws weithiau, felly os nad ydych yn gallu dod i gwrs, cysylltwch â ni ac fe wnawn ein gorau i helpu.

## Tiwtoriaid TUC Cymru

Mae pawb yn gwybod pa mor bwysig yw tiwtor da. Mae ein holl diwtoriaid yn undebwyr llafur profiadol sy'n deall rôl cynrychiolydd. Mae ein tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sydd i'w wybod ynghylch materion yn ymwneud â'r gweithle, felly byddwch yn cael y profiad dysgu gorau gan y bobl sy'n ei gwybod hi.



# Amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant

Mae gan gynrychiolwyr yr undeb hawl i amser i ffwrdd â thâl rhesymol i gyflawni dyletswyddau undeb ac ymgymryd â hyfforddiant. Mae ganddynt hefyd yr hawl i amser rhesymol di-dâl i ymgymryd â gweithgareddau undeb. Mae yna reoliadau ar wahân sy'n cwmpasu cynrychiolwyr iechyd a diogelwch undeb, cynrychiolwyr gweithle a Chynrychiolwyr Dysgu Undeb (CDU). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hawliau i ffwrdd i ddysgu yma: https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/Time%20Off%20for%20Union%20Training%20.pdf

# Cyrsiau wedi'u diweddaru'n llawn

Mae ein holl gyrsiau wedi'u diweddaru'n llawn ar gyfer 2026-27 ac maent yn cynnwys gwybodaeth benodol sy'n berthnasol i gynrychiolwyr yng Nghymru, gan gynnwys datblygiadau fel partneriaeth gymdeithasol. Rydym hefyd wedi addasu ein cyrsiau craidd Cam 1 i'w gwneud yn fodiwlaidd ac yn haws i'w dysgu ar gyflymder sy'n addas i chi. Mae ein holl gyrsiau yn parhau i fod yn llawn dan arweiniad tiwtor ac yn darparu cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â chynrychiolwyr eraill.

Rydym bellach hefyd yn cynnig ystod ehangach o gyrsiau byr, i helpu cynrychiolwyr sydd eisiau adnewyddu eu sgiliau neu gadw i fyny â'r materion diweddaraf yn y gweithle.

# Hyfforddiant achrededig

Mae ein cyrsiau 'craidd' - ein cyrsiau Cam 1 a 2 ar gyfer Cynrychiolwyr Undeb, Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch a Chynrychiolwyr Dysgu Undeb wedi'u hachredu'n allanol gan Agored Cymru ac maent yn caniatáu i gynrychiolwyr dderbyn cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol drwy ddyfarnu unedau ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF).

Mae achredu hefyd ar gael ar gyfer ein cyrsiau byr - mae opsiynau sydd ar gael ar gyfer achredu ar gyfer y cyrsiau hyn yn cynnwys bathodynnau digidol TUC Cymru, tystysgrif coleg ac unedau achrediad Ago, yn dibynnu ar ba gwrs rydych chi'n ei wneud. Bydd eich tiwtor yn gallu eich cynghori am yr hyn sydd ar gael ar eich cwrs.

# Dysgu ar-lein

Mae'r mwyafrif o'n cyrsiau bellach yn cael eu cynnig ar-lein trwy Microsoft (MS) Teams. Mae hyn yn galluogi cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru i gymryd rhan.

Pa offer a chyfleusterau fydd eu hangen arnaf i ymuno â chwrs ar MS Teams?

➔ Cysylltiad rhyngrwyd sefydlog

➔ Mynediad i liniadur neu gyfrifiadur sy'n gallu rhedeg MS Teams yn effeithiol ac sydd â:

- camera sy'n gweithio
- headset
- meicroffon

➔ Yn ddelfrydol, ystafell breifat neu swyddfa (naill ai gartref neu yn y gwaith)

Os na allwch gael mynediad at unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â TUC Cymru i drafod gan ein bod am i'r holl gynrychiolwyr allu cymryd rhan yn ein cyrsiau ac efallai y byddant yn gallu darparu cymorth.

# Cod Ymddygiad

Mae'r TUC wedi ymrwymo i drefnu gweithgareddau y gall pawb gymryd rhan ynddyn nhw mewn amgylchedd cynhwysol, parchus a diogel.

Nid yw'r TUC yn goddef unrhyw fath o aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Ni fydd ymddygiad neu sylwadau ymosodol, sarhaus, bygythiol, amharchus neu annerbyniol yn cael eu goddef.

Mae hyn yn ategu'r ymrwymiad a nodir yn rheolau'r TUC i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac i gael gwared â bob math o aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, rhagfarn a gwahaniaethu annheg.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd ar gyfathrebu mewn digwyddiad neu mewn cysylltiad â digwyddiad, gan gynnwys postiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon rydych chi eisiau eu codi ynglŷn ag ymddygiad, cysylltwch â Julie Cook neu Jo Rees drwy e-bost:

Julie Cook: jcook@tuc.org.uk
Jo Rees: jrees@tuc.org.uk



# Achredu a Llwybrau

# Llwybr cynrychiolydd undeb

## Cynrychiolwyr Undebau Cam 1 (Rhan A) - 5 diwrnod

Y cwrs cynefino cychwynnol 5 diwrnod hwn yw modiwl cyntaf ein cwrs Cam 1 ar gyfer cynrychiolwyr undebau, sy'n cael ei gyflwyno mewn dau fodiwl ar wahân.

Mae'r cwrs hwn yn hanfodol i gynrychiolwyr undebau newydd. Bydd y cwrs yn eich helpu i wneud y canlynol:

- ➔ deall rôl cynrychiolydd undeb yn y gweithle ac yn yr undeb ehangach
- ➔ nodi materion aelodau a chynrychioli aelodau mewn trafodaethau gyda chyflogwyr
- ➔ adeiladu prosesau recriwtio ac ymgyrchoedd undebau llafur
- ➔ deall hawliau yn y gwaith, contractau cyflogaeth a deddfwriaeth allweddol
- ➔ magu hyder yn eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel cynrychiolydd undeb

## Cynrychiolwyr Undebau Cam 1 (Rhan B) - 5 diwrnod

Rhan B yw ail fodiwl cwrs Cynrychiolwyr Undebau – Cam 1 a bydd yn cwblhau eich sesiwn gynefino hanfodol fel cynrychiolydd newydd. Cyn dechrau Rhan B, rhaid i chi fod wedi cwblhau Rhan A o gwrs Cynrychiolwyr Undebau – Cam 1.

Bydd y cwrs 5 diwrnod hwn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- ➔ deall sut yr ymdrinnir â chwynion, achosion disgyblu a gwaith achos arall a sut i gynrychioli aelodau'n effeithiol
- ➔ defnyddio a gwneud cytundebau
- ➔ deall strwythurau undebau a changhennau
- ➔ trefnu a mapio eich gweithle
- ➔ datblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau eraill ymhellach sydd eu hangen arnoch i fod yn gynrychiolydd effeithiol

I gwblhau Cam 1 o'ch hyfforddiant cychwynnol, unwaith y byddwch wedi cwblhau Rhan A, dylech gofrestru ar gyfer Rhan B y cwrs. Mae hwn yn fodiwl 5 diwrnod arall ac mae'n cwblhau eich hyfforddiant cynefino cychwynnol fel cynrychiolydd. Cynigir cyrsiau fesul modiwl fel eich bod yn gallu dewis pryd yr hoffech wneud ail ran y cwrs.

## Llwybr Cymwysterau i Gynrychiolwyr Undebau (Lefel 1)

Gall cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r ddwy ran yng nghwrs Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (rhan A a rhan B), yn ogystal â chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol o gyflawniad, gael Tystysgrif Lefel 1 i Gynrychiolwyr Undebau Llafur, sy'n gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Agored Cymru yw'r corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Modiwlau Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau

Mae'r cyrsiau isod yn rhan o ddarpariaeth Cam 2 TUC Cymru i gynrychiolwyr. Mae'r cyrsiau hyn yn addas i gynrychiolwyr sydd eisoes wedi cwblhau Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (neu hyfforddiant cyfatebol undebau).

### Diweddariad ar y Gyfraith Cyflogaeth (Uwch) – 4 diwrnod

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i fod yn ymwybodol o rai o'r newidiadau allweddol i'r gyfraith cyflogaeth a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth newydd. Bydd hefyd yn adnewyddu ac yn ymestyn eich gwybodaeth am y gyfraith cyflogaeth, gan gynnwys contractau cyflogaeth. Bydd yn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd i sicrhau gwelliannau i'ch aelodau.

Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Deall hawliau cyflogaeth o dan y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth newydd, ac atgoffa eich hun o ddeddfau cyflogaeth perthnasol eraill
- ➔ Deall sut mae aelodau'n cael eu gwarchod rhag diswyddo annheg
- ➔ Gwarchod aelodau rhag achosion posibl o fynd yn groes i hawliau cyflogaeth
- ➔ Deall rheolau newydd ynghylch gweithredu diwydiannol
- ➔ Gloywi eich gwybodaeth am wahanol fathau o statws cyflogaeth a chontractau cyflogaeth, a ffyrdd y gellir amrywio contractau cyflogaeth
- ➔ Ystyried pam nad yw undebau llafur yn dibynnu ar y gyfraith i sicrhau gwelliannau i aelodau a dod o hyd i gyfleoedd

### Cydfargeinio a Negodi (Uwch) – 2 ddiwrnod

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau cydfargeinio a negodi i'ch helpu i sicrhau gwelliannau i'ch aelodau. Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Deall gwahanol fathau o gytundebau cydfargeinio, a dod o hyd i gyfleoedd i sicrhau gwelliannau i aelodau
- ➔ Dyfnhau eich dealltwriaeth o gydnabod undebau llafur, a chytundebau cydnabod undebau llafur
- ➔ Deall technegau a strategaethau effeithiol i negodi gyda rheolwyr
- ➔ Paratoi cynlluniau negodi

## Gloywi Gwybodaeth a Sgiliau (Uwch) – 4 diwrnod

Cwrs i gynrychiolwyr profiadol yw hwn, a bydd yn eich helpu i ddiweddaru ac ehangu eich gwybodaeth a'ch sgiliau wrth ymgynghori'n effeithiol a nodi pryderon blaenoriaethol i weithredu arnynt yn eich gweithle. Yn ogystal â magu eich hyder i gynllunio'n effeithiol ar gyfer newid yn y gweithle, bydd hefyd yn eich helpu i gydweithio â chynrychiolwyr eraill fel tîm undeb, ac i gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau.

Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Deall gwahanol rolau cynrychiolwyr, a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i greu tîm undeb effeithiol
- ➔ Canfod a deall effeithiau newidiadau yn y gweithle nawr ac yn y dyfodol
- ➔ Deall arferion gorau wrth ymgynghori, a sut i gael gwybod pa bryderon sy'n flaenoriaeth i aelodau
- ➔ Creu dadl effeithiol dros welliannau yn y gweithle er mwyn mynd i'r afael â phryderon blaenoriaethol aelodau
- ➔ Cyfathrebu'n fwy effeithiol ag aelodau

## Llwybr Cymwysterau i Gynrychiolwyr Undebau (Lefel 2)

Mae modiwlau cwrs Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau a nodwyd uchod yn addas i gynrychiolwyr sydd eisoes wedi cwblhau Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (neu gwrs cyfatebol eu hundeb eu hunain) ar Lefel 1. Gall cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r tri modiwl ennill Tystysgrif Lefel 2 i Gynrychiolwyr Undebau Llafur – cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol a'i ddyfarnu gan Agored Cymru.

# Llwybr cynrychiolydd Iechyd a diogelwch

## Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch – Rhan A - 5 diwrnod

Y cwrs cynefino cychwynnol 5 diwrnod hwn yw modiwl cyntaf ein cwrs Cam 1 ar gyfer cynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau llafur, sy'n cael ei gyflwyno mewn dwy ran ar wahân.

Mae'r cwrs hwn yn hanfodol i gynrychiolwyr iechyd a diogelwch newydd. Byddwch yn dysgu am y canlynol:

- ➔ Prif swyddogaethau a hawliau cynrychiolydd iechyd a diogelwch
- ➔ Dyletswyddau cyfreithiol cyflogwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch
- ➔ Y broses asesu risg
- ➔ Gweithio gydag aelodau i nodi materion iechyd a diogelwch
- ➔ Sut mae cyfweld ag aelodau'n effeithiol, ac ysgrifennu adroddiadau iechyd a diogelwch
- ➔ Ymagwedd undebau llafur at iechyd a diogelwch yn y gwaith

## Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch – Rhan B - 5 diwrnod

Rhan B yw ail fodiwl cwrs Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch, a bydd yn cwblhau eich proses gynefino hanfodol fel cynrychiolydd iechyd a diogelwch newydd. Cyn dechrau ar Ran B, rhaid i chi fod wedi cwblhau rhan A o gwrs Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch.

Bydd y cwrs 5 diwrnod hwn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- ➔ Deall sut mae defnyddio a chymhwyso'r gyfraith ar iechyd a diogelwch yn y gweithle
- ➔ Deall deddfwriaethau allweddol, fel y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a rheoliadau fel RIDDOR
- ➔ Cynnal arolygiadau effeithiol yn y gweithle
- ➔ Asesu polisïau iechyd a diogelwch y gweithle
- ➔ Casglu gwybodaeth i helpu i leihau damweiniau a salwch yn y gwaith.

## Llwybr Cymwysterau i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Lefel 1)

Gall cynrychiolwyr sy'n cwblhau'r ddwy ran yng nghwrs Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (rhan A a rhan B), yn ogystal â chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol o gyflawniad, gael Tystysgrif Lefel 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur, sy'n gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Agored Cymru yw'r corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch – Rhan A - 5 diwrnod

Y cwrs 5 diwrnod newydd hwn yw rhan gyntaf cwrs uwch Cam 2 TUC Cymru ar gyfer Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch. Mae'n addas ar gyfer cynrychiolwyr profiadol sydd eisoes wedi cwblhau cwrs Cam 1 ar Iechyd a Diogelwch (neu gwrs cyfatebol yr undeb), ac sy'n dymuno datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth i'r lefel nesaf.

Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Pennu pa bryderon iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n flaenoriaeth, a mynd i'r afael â'r pryderon hynny
- ➔ Adolygu a gwella polisïau iechyd a diogelwch yn y gweithle
- ➔ Deall sut mae newidiadau yn y gweithle yn gallu creu problemau iechyd a diogelwch, a sut mae mynd i'r afael â'r problemau hyn
- ➔ Deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer ymgynghori a sut gellir gwella trefniadau yn y gweithle
- ➔ Asesu gwahanol ffynonellau gwybodaeth am iechyd a diogelwch, a datblygu cynllun i ddiweddaru eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun

## Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch – Rhan B - 5 diwrnod

Dyma ail fodiwl cwrs uwch Cam 2 TUC Cymru ar gyfer Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch. Mae'n addas i gynrychiolwyr profiadol sydd eisoes wedi cwblhau cwrs Cam 1 ar Iechyd a Diogelwch (neu gwrs cyfatebol yr undeb), sy'n dymuno datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth i'r lefel nesaf. Dylech gwblhau Rhan A cwrs Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch cyn cofrestru ar gyfer Rhan B.

Bydd y cwrs yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Datblygu cynlluniau negodi, a mynd ati i negodi'n hyderus ac yn effeithiol â chyflogwyr ar faterion iechyd a diogelwch
- ➔ Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ddeddfwriaethau a safonau iechyd a diogelwch yn y gweithle
- ➔ Paratoi cynnig am fesurau i wella iechyd a diogelwch yn y gweithle
- ➔ Gallu adolygu'r gweithdrefnau presennol ar gyfer asesu risg, nodi cryfderau a gwendidau, ac argymell gwelliannau

## Llwybr Cymwysterau i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Lefel 2)

Gall cynrychiolwyr sy'n cwblhau dau fodiwl cwrs Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan A a Rhan B) ennill Tystysgrif Lefel 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur – cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol a'i ddyfarnu gan Agored Cymru.

# Llwybr cynrychiolydd dysgu undeb

## Cynrychiolwyr Dysgu Undebau Cam 1

Mae'r cwrs cynefino cychwynnol 4 diwrnod hwn ar gyfer pob Cynrychiolydd Dysgu Undebau newydd ac unrhyw un sydd heb gael hyfforddiant o'r blaen. Er mwyn gallu gweithio'n effeithiol fel cynrychiolydd dysgu undeb, mae angen i chi feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth eang o faterion addysg a hyfforddiant. Mae dealltwriaeth dda o'ch undeb a'ch gweithle yn bwysicach fyth. Mae gwybod gyda phwy i siarad a phryd, pwy sy'n gwneud y penderfyniadau a sut, a pha bolisïau a chanllawiau all helpu, yn hanfodol i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau wneud achos llwyddiannus dros aelodau.

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ deall strwythurau undebau, a sut mae eich undeb yn trefnu o amgylch dysgu
- ➔ meithrin persbectif eang o rôl Cynrychiolydd Dysgu Undebau
- ➔ cael gwybod am ddatblygiadau mewn dysgu a gwerthfawrogi materion sy'n effeithio ar ddysgu
- ➔ gweithio gydag aelodau a chynrychiolwyr eraill i ddiffinio blaenoriaethau
- ➔ dilyn dull wedi'i gynllunio tuag at eich datblygiad eich hun a datblygiad eich aelodau
- ➔ datblygu'r sgiliau i roi achos yr undeb ar ddysgu
- ➔ gweithio ar y cyd fel rhan o dîm yr undeb.

## Cynrychiolwyr Dysgu Undebau Cam 2

Mae'r cwrs 4 diwrnod hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu Undebau sydd eisoes wedi cwblhau cwrs Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – Cam 1. Mae'n parhau ac yn ymestyn yr hyfforddiant hanfodol craidd i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau. Mae'n adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau o gwrs Cam 1, yn ogystal â'ch profiadau eich hun fel Cynrychiolydd Dysgu Undebau yn y gweithle. Ei nod yw rhoi rhagor o wybodaeth, hyder a sgiliau i chi o ran datblygu eich rôl ymhellach a hyrwyddo dysgu dan arweiniad undebau i bawb yn eich gweithle.

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ datblygu dull undebau llafur o adeiladu cydraddoldeb a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy ddysgu
- ➔ deall niwroamrywiaeth yng nghyd-destun dysgu
- ➔ deall a mynd i'r afael â rhwystrau penodol i ddysgu y mae aelodau yn eu hwynebu
- ➔ paratoi i drafod dysgu yn y gweithle dan arweiniad undebau, gan gynnwys cytundebau dysgu
- ➔ nodi newidiadau yn y gweithle nawr ac yn y dyfodol, a pha effaith y maent yn eu cael ar anghenion dysgu
- ➔ canfod ffynonellau cyllid ar gyfer dysgu

## Llwybr Cymwysterau Cynrychiolwyr Dysgu Undebau Llafur

Gall Cynrychiolwyr Dysgu Undebau sy'n cwblhau'r cwrs Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – Cam 1, yn ogystal â chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol o gyflawniad, gael Dyfarniad Lefel 1 ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu Undebau Llafur. Ar ôl i chi gwblhau Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – Cam 2 yn llwyddiannus, gallwch gael Dyfarniad Estynedig Lefel 1 ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu Undebau Llafur.  Agored Cymru yw'r corff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau hyn.



# Datblygiad Proffesiynol Parhaus - cyrsiau byr

Mae TUC Cymru Education yn cynnig cyfres o gyrsiau byr i helpu cynrychiolwyr i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Yn ogystal â'r cyrsiau a restrir isod, gallwn hefyd gynnig cyrsiau pwrpasol. Os oes cwrs yr hoffech ei wneud ac nad ydych chi'n ei weld wedi'i restru, cysylltwch â ni.

## Deallusrwydd Artiffisial a Thechnoleg Ddigidol yn y Gweithle - 2 diwrnod

Nod y cwrs 3 diwrnod newydd hwn yw helpu i godi ymwybyddiaeth o ba effaith y mae deallusrwydd artiffisial (AI) a thechnolegau digidol eraill yn ei chael nawr, a pha effaith y gallent ei chael ar weithwyr yn y dyfodol. Bydd yn eich helpu i ystyried pa fesurau diogelu ddylai fod ar waith i sicrhau nad yw cyflwyno technolegau newydd yn arwain at effeithiau negyddol ac y gellir gwireddu manteision cadarnhaol posibl i weithwyr

Erbyn diwedd y cwrs byddwch yn gallu gwneud y canlynol:

- ➔ Deall effaith deallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol eraill ar fyd gwaith
- ➔ Nodi mathau penodol o ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol sy'n cael eu defnyddio yn eu gweithle eu hunain a rhai o'r canlyniadau posibl y gallai'r rhain eu cael ar eich aelodau
- ➔ Deall sut y gellir defnyddio deddfwriaeth, cytundebau a strwythurau presennol yn effeithiol i herio arferion gwael wrth roi deallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol ar waith
- ➔ Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer eich gweithle chi

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at bob cynrychiolydd ac nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol.



## Gwneud y Gweithle'n fwy Gwyrdd – Sgiliau Cynrychiolwyr Gwyrdd - 3 diwrnod

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at gynrychiolwyr gwyrdd/amgylcheddol a phrofiadol yn ogystal ag undebwyr llafur eraill sydd am gymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn eu gweithle.

Mae'r cwrs yn ymdrin â'r canlynol:

- ➔ Deall yr argyfwng hinsawdd a natur a nodi effaith hynny ar eich gweithle
- ➔ Gweithio gyda'r gangen ac aelodau i ganfod materion cynaliadwyedd y mae angen eu codi â'r rheolwyr
- ➔ Sut mae cynnal archwiliadau amgylcheddol
- ➔ Sut mae adolygu a datblygu polisïau a chytundebau amgylcheddol y gweithle
- ➔ Rôl undebau mewn datblygu cynaliadwy
- ➔ Dulliau undebau llafur o weithredu a sicrhau bod gweithwyr yn cael llais teg yn y gwaith o lunio newidiadau sy'n effeithio arnynt – gan gynnwys cytundebau 'trawsnewid cyfiawn'
- ➔ Sut i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eich gweithle chi

## Bod yn Drefnus o Dan Straen – O Wydnwch i Wrthsefyll - 3 diwrnod

Mae'r cwrs 3 diwrnod hwn wedi'i gynllunio i helpu cynrychiolwyr i fod yn drefnus o dan straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae gwydnwch yn aml yn cael ei ddefnyddio i awgrymu bod angen i unigolyn fod yn gryfach yn feddyliol a gwrthsefyll straen yn well. Yn anffodus, yn aml gall fod yn enghraifft o sefydliadau'n methu â mynd i'r afael â'r broblem straen sydd wrth wraidd y broblem. Rhaid i gyflogwyr sy'n hyrwyddo'r naratif o 'wydnwch' a chynlluniau hyfforddi cysylltiedig gydnabod bod straen yn aml yn ganlyniad i waith ei hun, sy'n gofyn am newid strwythurau gwaith, yn hytrach na newid yn ymddygiad ac agweddau unigolion.

Nid yw straen yn tueddu i ddigwydd ar hap, mae'n deillio o rhywbeth penodol. Mae ymchwil TUC yn dangos mai'r pethau mwyaf sy'n achosi straen yn y gwaith yw:

- ➔ Llwyth gwaith (74%)
- ➔ Toriadau staffio (53%)
- ➔ Newid yn y gwaith (44%)
- ➔ Oriau hir (39%)

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu gyda'r canlynol:

- ➔ Canfod beth sy'n achosi gormod o straen a pha effaith y mae hynny'n ei chael
- ➔ Dysgu mwy am y cysylltiadau rhwng straen ac iechyd meddwl
- ➔ Deall dyletswyddau cyfreithiol cyflogwyr
- ➔ Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael fel mapio, archwiliadau rheoli straen ac asesiadau risg
- ➔ Adolygu polisïau a safonau perthnasol a negodi gwelliannau yn y gweithle
- ➔ Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer eich gweithle

## Partneriaeth Gymdeithasol - 2 diwrnod

Bydd y cwrs deuddydd newydd hwn yn grymuso cynrychiolwyr i ddefnyddio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd er budd aelodau.

Bydd yn helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder perthnasol i ddatblygu partneriaeth gymdeithasol effeithiol yn eich gweithle.

Am restr lawn o ddisgrifiadau cyrsiau, edrychwch ar ein gwefan. Mae'r dudalen we hefyd yn cynnwys manylion cyrsiau a dyddiadau ychwanegol a ychwanegwyd ar ôl i'r llyfryn hwn gael ei gynhyrchu. tuc.org.uk/WalesCourses

Bydd y cwrs yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, a bydd cynrychiolwyr yn cael cyfle i ddatblygu cynllun gweithredu ymarferol ar gyfer eu gweithle.

Mae achrediad ar gael ar gyfer y cwrs hwn. Cysylltwch â TUC Cymru i gael rhagor o fanylion.

## Mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal - 3 diwrnod

Bydd y cwrs tri diwrnod newydd hwn yn helpu cynrychiolwyr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle a'i atal.

Bydd yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Adnabod aflonyddu rhywiol a deall yr effeithiau
- Deall cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr (gan gynnwys y ddyletswydd ataliol newydd)
- Negodi polisïau effeithiol ar gyfer y gweithle
- Cefnogi aelodau y mae aflonyddu rhywiol yn effeithio arnynt
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer eich gweithle

## Anabledd yn y Gweithle - 3 diwrnod

Mae'r cwrs tri diwrnod newydd hwn ar gyfer pob cynrychiolydd sydd eisiau gwella cydraddoldeb i bobl anabl yn y gweithle a mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- Gwahaniaethu ar sail anabledd a sut mae'n effeithio ar aelodau
- Y model cymdeithasol o anabledd
- Cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Addasiadau rhesymol
- Cefnogi aelodau sydd ag 'anableddau cudd'
- Polisïau effeithiol ar gyfer y gweithle
- Datblygu eich cynllun gweithredu eich hun ar gyfer y gweithle





# Rhestrau cyrsiau

# Cysylltiadau ar gyfer ymholiadau am gyrsiau

## Addysg Oedolion Cymru

Mae'n cynnig cyrsiau yng Nghaerdydd, Wrecsam ac ar-lein.

Cydlynydd y Cyrsiau: Michelle Kerswell
Cyswllt: Nicholas Paul
Ffôn: 02922 746703
E-bost: Nicholas.Paul@adultlearning.wales

Cyfeiriad cyswllt: Astudiaethau Undebau Llafur Addysg Oedolion Cymru
7 Coopers Yard, Curran Road, Caerdydd CF10 5NB

## Coleg Gwent

Mae'n cynnig cyrsiau yng Nghasnewydd ac ar-lein.

Cydlynydd y Cyrsiau: John James
Cyswllt: John James
Ffôn: 01633 466030 or 07527 450276
E-bost: John.James@coleggwent.ac.uk

Cyfeiriad cyswllt: Canolfan Astudiaethau Undebau Llafur Coleg Gwent
Campws Dinas Casnewydd, Nash Road, Casnewydd NP19 4TS

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill am y cyrsiau, neu os nad ydych yn gallu gweld y cwrs sydd ei angen arnoch, cysylltwch â Thîm Addysg TUC Cymru:**

Ffôn: 029 2034 7010 E-bost: cymru@tuc.org.uk
Cyfeiriad cyswllt: TUC Cymru Education Service, 1 Cathedral Road, Cardiff CF11 9SD

Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan i weld rhestr o gyrsiau newydd a'r rhai sydd wedi'u diweddaru: tuc.org.uk/WalesCourses

# Tymor yr Hydref 2026

Oriau cwrs safonol yw 9am - 4.30pm.

| Enw'r cwrs | Hyd a phatrwm | Dyddiadau | Darparwr | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (Rhan A) | 5 diwrnod – ar ddydd Llun | 02/11, 09/11, 16/11, 23/11, 30/11 | Addysg Oedolion Cymru | 19 Hydref |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (Rhan B) | 5 diwrnod – ar ddydd Mercher | 04/11, 11/11, 18/11, 25/11, 02/12 | Addysg Oedolion Cymru | 19 Hydref |
| Diweddariad ar y Gyfraith Cyflogaeth (Uwch) – (Modiwl Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau) | 4 diwrnod – ar ddydd Mawrth | 03/11, 10/11, 17/11, 24/11 | Addysg Oedolion Cymru | 19 Hydref |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan A) | 5 diwrnod – ar ddydd Mercher | 02/11, 09/11, 16/11, 23/11, 30/11 | Coleg Gwent | 19 Hydref |
| Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan A) | 5 diwrnod – ar ddydd Mercher | 04/11, 11/11, 18/11, 25/11, 02/12 | Coleg Gwent | 19 Hydref |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau | 4 diwrnod – ar ddydd Iau | 05/11, 12/11, 19/11, 26/11 | Addysg Oedolion Cymru | 19 Hydref |
| Mynd i'r Afael ag Aflonyddu Rhywiol a'i Atal | 3 diwrnod – ar ddydd Iau | 01/10, 08/10, 15/10 | Coleg Gwent | 17 Medi |
| Sgiliau Siarad Cyhoeddus ar gyfer Cynrychiolwyr Undebau | 2 ddiwrnod – ar ddydd Gwener | 20/11, 27/11 | Addysg Oedolion Cymru | 6 Tachwedd |
| Anabledd yn y Gweithle | Bloc 3 diwrnod – dydd Llun i ddydd Mercher | 02/11, 03/11, 04/11 | Addysg Oedolion Cymru | 19 Hydref |

**Oni nodir fel arall, bydd pob cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein.**

# Tymor y Gwanwyn 2027

Oriau cwrs safonol yw 9am - 4.30pm.

| Enw'r cwrs | Patrwm | Dyddiadau | Darparwr | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (Rhan B) | 5 diwrnod – ar ddydd Mawrth | 16/02, 23/02, 02/03, 09/03, 16/03 | Addysg Oedolion Cymru | 1 Chwefror |
| Cydfargeinio a Negodi (Uwch) – (Modiwl Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau) | 2 ddiwrnod – ar ddydd Mercher | 24/02, 03/03 | Addysg Oedolion Cymru | 4 Chwefror |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan B) | 5 diwrnod – ar ddydd Llun | 15/02, 22/02, 01/03, 08/03, 15/03 | Coleg Gwent | 1 Chwefror |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau | 4 diwrnod – ar ddydd Iau | 14/01, 21/01, 28/01, 04/02 | Addysg Oedolion Cymru | 4 Ionawr |
| Gwneud y Gweithle'n fwy Gwyrdd – sgiliau cynrychiolwyr gwyrdd | 3 diwrnod – ar ddydd Mawrth | 02/03, 09/03, 16/03 | Addysg Oedolion Cymru | 15 Chwefror |
| Deallusrwydd Artiffisial a Thechnoleg Ddigidol yn y Gweithle | 2 ddiwrnod – ar ddydd Gwener | 22/01, 29/01 | Coleg Gwent | 7 Ionawr |
| Niwroamrywiaeth yn y Gweithle | 2 ddiwrnod – ar ddydd Gwener | 26/02, 05/03 | Addysg Oedolion Cymru | 4 Chwefror |
| Bod yn Drefnus o Dan Straen – O Wydnwch i Wrthsefyll | 3 diwrnod – ar ddydd Mawrth | 16/02, 23/02, 02/03 | Coleg Gwent | 1 Chwefror |

**Oni nodir fel arall, bydd pob cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein.**

# Tymor yr Haf 2027

Oriau cwrs safonol yw 9am - 4.30pm.

| Enw'r cwrs | Patrwm | Dyddiadau | Darparwr | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Undebau (Rhan A) | 5 diwrnod – ar ddydd Mercher | 07/04, 14/04, 21/04, 28/04, 05/05 | Addysg Oedolion Cymru | 18 Mawrth |
| Diweddariad ar y Gyfraith Cyflogaeth (Uwch) – (Modiwl Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau) | 4 diwrnod – ar ddydd Iau | 15/04, 22/04, 29/04, 06/05 | Addysg Oedolion Cymru | 5 Ebrill |
| Gloywi Gwybodaeth a Sgiliau Cynrychiolwyr (Uwch) – (modiwl Cam 2 i Gynrychiolwyr Undebau) | 4 diwrnod – ar ddydd Mercher | 09/06, 16/06, 23/06, 30/06 | Addysg Oedolion Cymru | 25 Mai |
| Cam 1 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan A) | 5 diwrnod – ar ddydd Llun (ac eithrio dydd Llun 3 Mai, gan ei fod yn ŵyl banc) | 05/04, 12/04, 19/04, 26/04, 10/05 | Coleg Gwent | 18 Mawrth |
| Cam 2 i Gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch (Rhan B) | 5 diwrnod – ar ddydd Llun (ac eithrio dydd Llun 31 Mai, gan ei fod yn ŵyl banc/hanner tymor) | 17/05, 24/05, 07/06, 14/06, 21/06 | Coleg Gwent | 30 Ebrill |
| Cam 2 i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau | 4 diwrnod – ar ddydd Iau | 10/06, 17/06, 24/06, 01/07 | Addysg Oedolion Cymru | 26 Mai |
| Cynrychiolwyr Cydraddoldeb | 4 diwrnod – ar ddydd Mercher | 07/04, 14/04/, 21/04, 28/04 | Coleg Gwent | 18 Mawrth |
| Mynd i'r Afael ag Aflonyddu Rhywiol a'i Atal | 3 diwrnod – ar ddydd Gwener | 07/05, 14/05, 21/05 | Addysg Oedolion Cymru | 22 Ebrill |
| Partneriaeth Gymdeithasol | 2 ddiwrnod – ar ddydd Llun | 10/05, 17/05 | Addysg Oedolion Cymru | 22 Ebrill |
| Ymagwedd at Iechyd a Diogelwch sy'n Ystyriol o Rywedd | 2 ddiwrnod – ar ddydd Mawrth | 08/06, 15/06 | Addysg Oedolion Cymru | 24 Mai |

**Oni nodir fel arall, bydd pob cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein.**

# Sut i wneud cais

Ar ein cyrsiau, rydym yn gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn a manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu.

## Sut mae gwneud cais

Pan fyddwch wedi dewis y cwrs yr hoffech ei ddilyn, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb.

Sganiwch y cod QR isod a chliciwch ar y ddolen 'gwneud cais nawr' wrth ymyl y cwrs y mae gennych ddiddordeb ynddo i lenwi'r ffurflen gais.

Ffurflen gais:
https://www.tuc.org.uk/WalesCourses

## Cyn Gwneud Cais am Gwrs

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi sicrhau amser i ffwrdd i fynychu'r cwrs hwn a'ch bod wedi hysbysu'r swyddog cangen undeb priodol neu swyddog o'ch undeb eich bod yn bwriadu dilyn y cwrs. Mae canllawiau ar amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant undeb i'w gweld ar dudalen 5.

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais, byddwch yn derbyn e-bost awtomataidd yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. Bydd y ganolfan astudiaethau undeb llafur sy'n cynnal eich cwrs yn cysylltu â chi gyda rhagor o wybodaeth am y cwrs.

## SYLWER:

Oherwydd cyfyngiadau cyllido, mae'r cwrs hwn ar gyfer cynrychiolwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Os nad ydych yn gymwys i fynd ar y cwrs rydych yn gwneud cais amdano, byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cyfeirio at gwrs arall addas os oes un ar gael.

Nid oes ffioedd cwrs ar gyfer rhaglen Addysg TUC Cymru. Bydd angen i chi siarad â'ch cyflogwr neu eich undeb am gostau teithio a chostau cysylltiedig eraill.



# Nodiadau:

# CYFATHREBU TUC CYMRU

## Cadwch mewn cysylltiad

Byddwch y cyntaf i glywed am newyddion a digwyddiadau sydd ar ddod gan TUC Cymru.

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

Ymunwch â'n rhestr bostio cylchlythyr yn tuc.org.uk/contactwales

## Astudiaethau achos

Os oes gennych chi newyddion am ymgyrchoedd eich undeb neu syniadau ar gyfer astudiaethau achos sy'n amlygu gwaith eich undeb, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych ar cymru@tuc.org.uk

## Cymorth cyfathrebu dwyieithog

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg o fewn mudiad yr undebau llafur. Yn ogystal â gwella cyfathrebu dwyieithog TUC Cymru ei hun, hoffem gefnogi cyrff cysylltiedig i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cymorth gyda'ch cyfathrebu dwyieithog, cysylltwch â cymru@tuc.org.uk